*These notes refer to the Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (c.1)*

# DEDDF SENEDD AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2020

---

## EXPLANATORY NOTES

**CYFLWYNIAD**

**Rhan 3**

**Etholiadau**

**Cofrestru Etholiadol**

***Adran 15 – Gwahoddiad i gofrestru: darpariaeth bellach am bersonau o dan 16 oed***

30. Mae adran 15 yn rhoi’r p#er i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch gwahoddiadau i wneud cais i gofrestru yn etholwr llywodraeth leol yng Nghymru. Mae’n bosibl y bydd angen gwneud y rheoliadau hyn o ganlyniad i ostwng yr oedran pleidleisio yn etholiadau’r Senedd, y mae'r etholfraint yn gysylltiedig â’r gofrestr llywodraeth leol (gweler adran 12 o Ddeddf 2006).